Stephen Hughes, 'Apostol Sir Gaerfyrddin', 1622–88
Anghydffurfiwr cynnar

Gŵr o Gaerfyrddin oedd Stephen Hughes, mab i John Hughes, sidanydd yn y dref. Ni wyddom ddim am ddyddiau ei blentyndod ond mae'n bosibl iddo gael addysg yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin. Cafodd fywoliaeth Meidrim ym 1654 ac yr oedd ganddo fywoliaeth Merthyr cyn hynny. Yr oedd yn ŵr o ddylanwad mawr yng nghyfnod Cromwell, a bu ei weinidogaeth yn un hynod effeithiol yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd ganddo natur gymedrol ac ni fynnai dramgwyddo neb. Bu hynny o fantais iddo oherwydd yr oedd ganddo berthynas dda â llawer o offeiriaid eraill. Llwyddodd i ennill clust a chefnogaeth Eglwyswyr ac Anghydffurfwyr fel ei gilydd, a byddai'n pregethu i gynulleidfaoedd mawrion. Anaml y byddai'n rhannu'r Efengyl heb wylo, a byddai ei ddagrau yn tynnu dagrau i lygaid ei wrandawyr.

Gwaith mwyaf ei fywyd oedd cyhoeddi llyfrau Cymraeg i'r werin, a rhoes waddol llenyddol amhrisiadwy i'w genedl. Ym 1658 cyhoeddodd ran gyntaf gwaith Ficer Prichard a dilynodd yr ail ran yn fuan wedyn. Daeth diwedd ar yr argraffu pan adferwyd y brenin a bu rhaid iddo adael Meidrim.

Ni wyddom ddim amdano yn ystod cyfnod yr erlid ar wahân i'r ffaith ei fod wedi cadw ysgolion a pharhau i bregethu yn sir Gaerfyrddin. Priododd â merch gefnog o Abertawe ac ymgartrefodd yn y dref honno. Oddeutu 1670 ailgydiodd yn y cyhoeddi ac ymddangosodd y drydedd ran o waith y Ficer. Yna ym 1672 cyhoeddodd y pedair rhan o waith Ficer Prichard mewn un gyfrol. Yn yr un flwyddyn ymddangosodd *Llyfr y Psalmau, ynghyd â Thestament Newydd ein Harglwydd* a gynhwysai *Salmau Cân* Edmwnd Prys, *Catecism* Mr Perkins a dau gyfieithiad o waith Richard Jones, Dinbych, sef *Rhodfa Cristion* ac *Amdo i Babyddiaeth*. Tua 1670 dechreuodd cylch o ddynion yn Llundain gyfrannu arian tuag at godi ysgolion i blant a rhoi llyfrau i oedolion yng Nghymru. Arweinydd y cylch oedd Thomas Gouge, ac

ymunodd Stephen Hughes, Charles Edwards, Richard Jones a William Jones i hybu ei ymdrechion gyda'r Ymddiriedolaeth Gymreig. Dosbarthodd y cylch 32 o Feiblau Cymraeg, 479 o Destamentau a 500 o *Holl Ddyledswydd Dyn*. Yr oedd hefyd argraffiad o 2, 500 o'r *Ymarfer o Dduwioldeb* ar y gweill. Ond gorchwyl mwyaf yr ymddiriedolaeth a Stephen Hughes oedd paratoi argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg a welodd olau dydd ym 1677–8. Perswadiodd Stephen Hughes nifer o gyfoethogion i noddi llyfrau Cymraeg ond defnyddiodd ei arian ei hun a chyfoeth ei wraig hefyd i'r un perwyl. Ef a dalodd am argraffu *Trysor i'r Cymru* (1677), *Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd* (1677), *Canwyll y Cymru* (1681) a *Cynghorion Tad i'w Fab* (1683). Bu'n rhannol gyfrifol hefyd am gyfieithu gwaith Bunyon i'r Gymraeg am y tro cyntaf, o dan y teitl *Taith neu Siwrnai y Pererin* (1688).

Bu'r gweithiau hyn o bwysigrwydd mawr i Gymru oherwydd ataliodd fudiad Thomas Gouge rhag bod yn un Saesneg, a fyddai wedi golygu tanseilio'r Gymraeg, a rhoddwyd adnoddau gwerthfawr i werin Cymru yn eu hiaith eu hunain. Y llyfrau hyn oedd cerrig sylfaen y diwylliant diwinyddol Protestannaidd Cymraeg a ddatblygodd yn y cyfnod hwnnw. Bu farw Stephen Hughes yn Abertawe ym 1688.